Coleg Graddedigion y Brifysgol

CARDIFF UNIVERSITY
PRIFYSGOL CAERDYDD

Cylchlythyr Coleg Graddedigion y Brifysgol Medi - Tachwedd 2012

Croeso!

Rydym yn falch o gyflwyno'r pedwerydd rhifyn o Lythyr Newyddion Coleg Graddedigion y Brifysgol. Yn y rhifyn hwn, gobeithiwn gynnig croeso cynnes i'n myfyrwyr ôl-raddedig newydd, yn ogystal â'r holl fyfyrwyr sy'n cychwyn ar flwyddyn academaidd newydd. Ar **dudalen 2** ceir gwybodaeth am ein digwyddiad Dechrau Arni – sy'n hanfodol ar gyfer pob myfyriwr ôl-raddedig newydd - a fydd yn helpu i hwyluso eich dyddiau cyntaf fel ymchwilydd. Hefyd bydd Canolfan y Graddedigion yn cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau cymdeithasol yn ystod y Pythefnos Croesawu, a ddylai eich helpu i ddod yn gyfarwydd â Chanolfan y Graddedigion a'r ardal leol, a chyfarfod â chyd-fyfyrwyr. Gweler **tudalen 3** am fanylion pellach.

Ar **dudalen 6**, mae tri o'n myfyrwyr ôl -raddedig presennol yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar eu diwrnodau cyntaf fel ymchwilydd ac yn cynnig awgrymiadau a chyngor defnyddiol ar gyfer y rhai sy'n wynebu'r un heriau.

P'un ai os ydych ond yn dechrau arni, neu ar ganol eich gyrfa ymchwil, bydd ein Canllaw Twitter ar **dudalen 7** yn dweud wrthych pam a sut y dylech fod yn defnyddio'r offeryn cyfryngu cymdeithasol hwn i'ch helpu gyda'ch gwaith ymchwil. Cofiwch ddilyn Coleg Graddedigion y Brifysgol **@CardiffUGC**!

I ymchwilwyr ôl-raddedig sydd eisiau cymryd rhan mewn rhywbeth ychydig yn wahanol, gallwch ddarganfod popeth am ddod yn Aelod o Bwyllgor Cynhadledd y Myfyrwyr ar **dudalen 4**. Yn ogystal â bod yn ffordd dda o gyfarfod â phobl newydd, mae bod yn Aelod o'r Pwyllgor yn gyfle gwych i ddatblygu ystod o sgiliau gwerthfawr.

Mae rhaglen Coleg Graddedigion y Brifysgol yn canolbwyntio'n gryf ar archwilio dewisiadau gyrfa, o fewn a thu allan i'r byd academaidd. Ar **dudalen 7**, gallwch weld pam y dylech feddwl am eich dewisiadau gyrfa o'ch diwrnod cyntaf fel ymchwilydd.

Hoffem longyfarch y myfyrwyr sydd wedi derbyn cyllid Mentrau Ymchwil Ôl-raddedig ar gyfer eu prosiectau yn y rownd ddiweddaraf o geisiadau. Ar **dudalen 8**, cewch wybod mwy am y prosiectau hyn, yn ogystal â sut y gallwch wneud cais am gyllid yn y flwyddyn sydd i ddod.

Yn yr un modd ag arfer, mae llawer wedi bod yn digwydd yng Ngholeg Graddedigion y Brifysgol dros y misoedd diwethaf. Ar **dudalen 3** mae'r newyddion diweddaraf am y cyfleusterau newydd ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig ym Mharc y Mynydd Bychan, ac mae'r llythyr newyddion yn cynnwys gwybodaeth am y newidiadau rydym wedi'u gwneud i'n **gwefan** a'n hunaniaeth weledol (gan gynnwys ein logo newydd, isod). Ar **dudalen 4** rydym hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith ein pedwar Tîm Rhaglenni.

Yn ogystal â'r holl waith sy'n cael ei wneud gan Goleg Graddedigion y Brifysgol, rydym hefyd yn cychwyn ar gyfnod o newid i'r Brifysgol yn gyffredinol. Efallai bod aelodau'r staff yn ymwybodol o hyn ond nid y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig o bosibl. Mae ein His-Ganghellor newydd, yr Athro Colin Riordan, wedi cychwyn proses ad-drefnu gan greu tri Choleg, gyda phob un o dan arweiniad Dirprwy Is-Ganghellor, ac mae wedi penodi tri Dirprwy Is-Ganghellor arall i ffurfio uwch dîm newydd. Byddwn yn gweithio gyda'r Athro Patricia Price, Dirprwy Is-Ganghellor Profiad Myfyrwyr a Safonau Academaidd, i barhau i fynd i'r afael â blaenoriaethau ymchwilwyr yn y strwythur newydd hwn. Bydd mwy o wybodaeth yn dilyn.

Dechrau Arni

Gall dechrau ar radd ymchwil newydd fod yn frawychus. Yng Ngholeg Graddedigion y Brifysgol, rydym eisiau helpu i wneud y broses o ddechrau'r bennod newydd hon yn eich bywyd mor bleserus a di-straen ag y bo modd. Un o'r ffyrdd y byddwn yn gwneud hyn yw drwy ein digwyddiad sefydlu, sef Dechrau Arni. Mae'r digwyddiad hwn yn gyfle gwych i gyfarfod â myfyrwyr ymchwil eraill a dechrau datblygu rhwydweithiau personol a phroffesiynol pwysig. Mae'n rhoi cyflwyniad i waith ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd, gan gynnwys hawliau a chyfrifoldebau, y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael yn y Brifysgol a Choleg Graddedigion y Brifysgol, Canolfan y Graddedigion, a chyflwyniadau gan fyfyrwyr presennol ar ddechrau a mwynhau eich rhaglen ymchwil. Yn bwysig, bydd y digwyddiad yn cyflwyno'r cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad sydd ar gael ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn eich galluogi i ddechrau cynllunio datblygiad eich sgiliau.

Mae Dechrau Arni wedi'i gynllunio i ategu yn hytrach na dyblygu darpariaeth sefydlu eich ysgol.

Erbyn diwedd y digwyddiad hwn, bydd cyfranogwyr:

- â dealltwriaeth well o natur gradd ymchwil
- wedi dod yn gyfarwydd â rheoliadau a systemau'r Brifysgol
- wedi datblygu ymwybyddiaeth o ffynonellau cymorth a chefnogaeth
- wedi cael dealltwriaeth o gefndir a gofynion y Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr a sut mae hyn yn effeithio arnynt
- yn deall pwysigrwydd monitro eu datblygiad personol a phroffesiynol
- wedi cael golwg gyffredinol ar y cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael.

Bydd y sesiynau ym mis Hydref yn gorffen gyda naill ai cinio neu gaws a gwin. Bydd sesiynau canol y flwyddyn yn cynnwys pynciau ychwanegol nad ydynt wedi derbyn sylw yn sesiynau sefydlu'r ysgolion, a chiniawau.

Dyddiadau:

Dydd Mawrth 9 Hydref 09.00 - 14.00
Dydd Iau 11 Hydref 13.00-18.00
Dydd Llun 22 Hydref 09.00 - 14.00
Dydd Mawrth 22 Ionawr 09.00 - 15.30
Dydd Iau 25 Ebrill 09.00 - 15.30
Dydd Llun 15 Gorffennaf 09.00 - 15.30

Archebwch le nawr trwy ein **gwefan.**

- Sarah Brasher
- Swyddog Coleg Graddedigion y Brifysgol

Gwefan Newydd

Mae Canolfan Graddedigion y Brifysgol yn falch o gyhoeddi lansiad ein **gwefan newydd** sbon. Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau'r newidiadau a wnaethom. Mae'r rhain yn cynnwys:

Gwe-lywio haws - rydym wedi ad-drefnu'r tudalennau er mwyn sicrhau bod yr holl gynnwys yn haws dod o hyd iddo, yn arbennig yn ein hadran 'Hyfforddiant a Datblygiad'.

Tudalen 'newyddion a digwyddiadau' newydd a gwell - bydd yr adran hon ar ei newydd wedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ynghylch newyddion a digwyddiadau, a bydd yn caniatáu i chi bori'n hawdd drwy straeon newyddion a digwyddiadau blaenorol. Hefyd gallwch danysgrifio i'r cofnodion sydd fwyaf perthnasol i chi (e.e. unrhyw straeon am y Dyniaethau neu'r Gwyddorau Ffisegol) drwy ein porthiannau RSS, i sicrhau y daw'r cofnodion cywir ynghylch newyddion a digwyddiadau yn syth atoch chi.

Ffyrdd newydd o gysylltu - ar y wefan newydd, ceir amrywiaeth o wahanol ffyrdd o gadw mewn cysylltiad â Choleg Graddedigion y Brifysgol, er enghraifft trwy Facebook a Twitter. Rydym eisiau i chi allu rhyngweithio â ni mewn ffyrdd sy'n addas i CHI.

Dogfennau ac Adnoddau - byddwn yn defnyddio'r adran hon i gofnodi unrhyw ddogfennau ac adnoddau a allai, yn ein tyb ni, fod yn berthnasol i ymchwilwyr. Yn ogystal ag unrhyw ffurflenni y gallai fod eu hangen arnoch, bydd dolenni i erthyglau diddorol a deunydd y gellir ei lawrlwytho am ddim ar gael hefyd.

A wyddoch chi? Mae Coleg Graddedigion y Brifysgol ar Facebook erbyn hyn. Ewch i www.facebook.com/universitygraduatecollege a chlicio ar 'hoffi' i ddangos eich cefnogaeth. Diolch!

Canolfan y Graddedigion Parc y Mynydd

Ers tro, mae Coleg Graddedigion y Brifysgol wedi bod yn ymwybodol o'r diffyg lle astudio a chymdeithasol ar Gampws Parc y Mynydd Bychan ar gyfer yr holl fyfyrwyr ôl-raddedig sydd wedi'u lleoli yno. Dros y chwe mis diwethaf, mae cynlluniau wedi dod at ei gilydd, ac rydym yn falch o gyhoeddi y bydd mis Hydref 2012 yn gweld lle arbennig ar gyfer graddedigion yn agor ym Mharc y Mynydd Bychan, wedi'i leoli ar ail lawr yr Prif Adeilad.

Bydd y lle hwn yn cynnwys dwy ystafell ar wahân. Caiff un ystafell ei defnyddio fel cyfleuster astudio, gyda gliniaduron y gellir eu defnyddio i gysylltu'n uniongyrchol â'r rhwydwaith, a desgiau y gellir eu defnyddio ar gyfer gwaith unigol a gwaith grŵp. Bydd yr ystafell hon yn cael ei defnyddio ar gyfer rhai o weithdai Coleg Graddedigion y Brifysgol hefyd. Edrychwch ar raglen newydd Coleg Graddedigion y Brifysgol am fwy o wybodaeth. Caiff yr ystafell arall ei dynodi'n fan cymdeithasol, gyda chymysgedd o soffas, seddau meddal a byrddau coffi, a fydd yn caniatáu i chi gymryd saib haeddiannol o'ch astudiaethau.

Ceir hefyd daflunydd a sgrin fawr a fydd yn eich galluogi chi i fwynhau DVDs, teledu Freeview, a Nintendo Wii. Os hoffech i ni drefnu unrhyw ddigwyddiadau, neu os hoffech ddefnyddio'r man hwn ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau penodol ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig, rydym yn eich annog i anfon e-bost at Ganolfan y Graddedigion: Grad-Centre@caerdydd.ac.uk – byddem yn falch iawn o drafod hyn ymhellach â chi.
Bydd y man newydd yn barod erbyn dechrau'r tymor academaidd newydd. Gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd i'n **gwefan** i gael manylion y parti agor swyddogol! Gobeithiwn y bydd y man hwn o gymorth mawr i bawb ohonoch sydd wedi'ch lleoli ym Mharc y Mynydd Bychan.

- Terri Delahunty,
- Pennaeth Gweinyddiaeth Coleg Graddedigion y Brifysgol

Pythefnos Croesawu

Mae Canolfan y Graddedigion yn edrych ymlaen yn fawr iawn at raglen llawn gweithgareddau a llawn hwyl ar gyfer Pythefnos Croesawu eleni. Roeddem eisiau parhau i gynnig rhai o ddigwyddiadau poblogaidd blynyddoedd a fu, megis anerchiad yr Is-Ganghellor, ac eleni bydd yr Is-Ganghellor newydd, sef yr Athro Colin Riordan, yn cynnig ei groeso cyntaf i bob myfyriwr ôl-raddedig newydd. Bydd cyfleoedd i wneud ffrindiau newydd yn ein digwyddiadau Cyfle i Gyfarfod ag Ôl-raddedigion, ac i ymlacio yn ein nosweithiau Cwis a Phitsa poblogaidd. Hefyd byddwn yn parhau i ddangos ffilmiau bob nos Sadwrn.
Eleni, rydym yn edrych ymlaen yn fawr at gynnal rhai digwyddiadau unigryw yn arbennig ar gyfer y Pythefnos Croesawu. Mae myfyrwyr ôl-raddedig presennol wedi cynnig trefnu **'Taith Goffi'**, i ddangos y caffis lleol gorau i fyfyrwyr ôl-raddedig newydd gadw eu lefelau caffein i fyny. Hefyd byddwn yn mynd â myfyrwyr ar daith dywysedig ym Mae Caerdydd.

Un o'r digwyddiadau unigryw mwyaf i'w gynnal yn ystod y Pythefnos Croesawu fydd **'Marchnad Stryd Canolfan y Graddedigion'**, a fydd yn gweld amrywiaeth o gynhyrchwyr bwyd lleol a rhyngwladol yn gweini rhai danteithion blasus wrth i chi bori ymhlith hen ddillad, trugareddau, a llyfrau. *Caiff y farchnad ei chynnal gan **Farchnad Ffermwyr Glan yr Afon**, ac os nad ydych chi wedi ymweld â'r farchnad honno eto, ewch, da chi!*
Yn ogystal, bydd rhai digwyddiadau rheolaidd newydd yn cychwyn. Bob prynhawn Gwener o 5.30pm, byddwn yn cynnal **'#Dilyn Dydd Gwener'** - sef set o gerddoriaeth fyw gan amrywiaeth o berfformwyr o gantorion-gyfansoddwyr lleol i genres cerddorol rhyngwladol. Beth fyddai'n well na dechrau'r penwythnos drwy ymlacio yn y Caffi Bar? Bydd **'Ymlacio ar Nos Sul'** yn cynnig profiad gwahanol bob wythnos, o nosweithiau gemau, nosweithiau meic agored, a gweithgareddau unigryw a arweinir gan fyfyrwyr.



Ein prif bwyslais eleni yw cynnig digon o gyfleoedd i chi fel myfyriwr gymryd rhan yn yr hyn sydd gan y gymuned leol i'w gynnig i chi. Hefyd byddwn yn ceisio annog digwyddiadau sy'n arddangos amrywiaeth y diwylliannau rhyngwladol sydd i'w cael ymhlith ein myfyrwyr. Os oes gennych unrhyw syniadau ar gyfer digwyddiadau, anfonwch e-bost at **Grad-Centre@caerdydd.ac.uk**.
Gyda chymaint yn digwydd, rydym yn annog yr holl fyfyrwyr newydd a phresennol i wneud pob ymdrech i gymryd rhan mewn cynifer o'r digwyddiadau cymdeithasol â phosibl.
Cynhelir y Pythefnos Croesawu:
24 Medi – 7 Hydref

Am fwy o wybodaeth ynghylch y Pythefnos Croesawu, ewch i'n **gwefan bwrpasol.** Neu gallwch gael y newyddion diweddaraf drwy hoffi ein tudalen **Facebook** neu ein dilyn ar **Twitter.**

- Chris Lawrence
Rheolwr Gweithrediadau a Digwyddiadau Canolfan y Graddedigion

Cymerwch Ran!

Bob blwyddyn, mae Coleg Graddedigion y Brifysgol yn cefnogi nifer o gynadleddau a arweinir gan fyfyrwyr, sy'n rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr mewn gwahanol ddisgyblaethau gyflwyno eu gwaith i'w gilydd, rhannu a datblygu eu diddordebau ymchwil a sefydlu cysylltiadau rhyngddisgyblaethol cydfanteisiol. Mae'r cynadleddau hyn yn ffordd wych i fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau cyflwyno mewn amgylchedd cefnogol a chyfeillgar a'u cynorthwyo i deimlo'n rhan o'r gymuned ymchwil ehangach.

Ar hyn o bryd rydym yn gwahodd ymchwilwyr i ymuno â phwyllgorau llywio cynadleddau ar gyfer ein cynadleddau Siarad am Wyddoniaeth, Llais y Dyniaethau a Thaflu Goleuni ar Wyddorau Cymdeithasol. Bydd ymuno â phwyllgor yn rhoi cyfle ardderchog i chi gymryd rhan mewn trefnu cynhadledd academaidd a fydd yn rhoi profiad a sgiliau i chi yn y maes hwn, yn ogystal â'ch galluogi i gyfarfod ag ymchwilwyr o Ysgolion (a sefydliadau) eraill y gallai eu gwaith ymchwil fod yn gysylltiedig â'ch gwaith chithau.

Os hoffech ymuno â phwyllgor llywio, rhowch wybod i ni cyn gynted ag y bo modd drwy anfon e-bost at Rebecca Green yn **UGC@caerdydd.ac.uk**. Caiff llefydd eu cynnig ar sail y cyntaf i'r felin gaiff falu. I sicrhau ystod mor eang a chytbwys â phosibl ar draws y disgyblaethau, rydym yn croesawu myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig o bob Ysgol.

Newyddion y Timau Rhaglenni

Y newyddion diweddaraf gan ein pedwar Tîm Rhaglenni

Meithrin Gallu

Cyfarfu'r Tîm Rhaglenni dair gwaith yn ystod y flwyddyn - ym mis Tachwedd, mis Chwefror a mis Mai. Bu cyfarfod yr hydref yn ystyried gwybodaeth reoli ynghylch cofrestru ar gyfer doethuriaethau yn erbyn targedau, a derbyniwyd adroddiadau ynghylch recriwtio myfyrwyr rhyngwladol a recriwtio Cartref/yr UE. Hefyd cytunwyd ar ddyrannu grant hyfforddiant Doethurol y Cyngor Ymchwil Feddygol a chronfeydd gwaddol. Prif eitem yr agenda ar gyfer cyfarfod mis Chwefror oedd Map Blaenoriaethau Ymchwil Ôl-raddedig. Mae gwerthuso strategaethau recriwtio myfyrwyr ôl-raddedig a datblygu'r tudalennau gwe ar gyfer recriwtio myfyrwyr ôl -raddedig yn ddwy brif flaenoriaeth. Bu cyfarfod mis Mai yn parhau â gwaith blaenorol a chytunwyd hefyd ar ddyrannu Ysgoloriaethau'r Llywydd i themâu.

Cyfleusterau Graddedigion

Cyfarfu'r Tîm Rhaglenni ddwywaith, unwaith ym mis Rhagfyr ac unwaith ym mis Ebrill. Yn y cyfarfod cyntaf, ystyriwyd materion yn ymwneud â chyfleusterau yn deillio o'r Arolwg o Brofiad Ymchwil Ôl-raddedig a derbyniwyd adroddiad blynyddol Canolfan y Graddedigion. Hefyd cafwyd cyflwyniadau gan staff y Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth ynghylch y ddarpariaeth ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, Yng nghyfarfod y gwanwyn, trafodwyd y Map Blaenoriaethau Ymchwil Ôl-raddedig, a hefyd cafwyd y newyddion diweddaraf ynghylch datblygiad Adeilad Hadyn Ellis a'r ganolfan i raddedigion ym Mharc y Mynydd Bychan. Mae'r ganolfan hon ar fin agor yn fuan iawn; er na allwn fod yn fanwl gywir ar adeg ysgrifennu hyn, gobeithir y bydd yn agor o fewn wythnos neu ar ddechrau'r tymor.

Hyfforddiant a Datblygiad

Cyfarfu'r Tîm Rhaglenni deirgwaith yn ystod y flwyddyn – ym mis Hydref, mis Chwefror a mis Mai, Yn ogystal â'r prif ganlyniad – sef Rhaglen Canolfan Graddedigion y Brifysgol 2012-13, a gaiff ei dosbarthu ar ddechrau mis Medi, mae'r Tîm wedi cytuno, ac yn ddiweddarach wedi derbyn adroddiadau, ar brosiect peilot lle mae Ymchwilwyr Ôl-raddedig sy'n dysgu yn cael eu cynorthwyo trwy gais unigol i'r Academi Addysg Uwch. Daw canlyniadau'r ceisiadau hyn yn hysbys y mis nesaf. Hefyd derbyniodd y Tîm ganlyniadau'r Arolwg o Brofiad Ymchwil Ôl-raddedig, bu'n trafod Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg, Menter ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd; bu'n adolygu a gwneud sylwadau ar y Map Blaenoriaethau Ymchwil Ôl-raddedig; a chymeradwywyd y gyllideb ar gyfer Rhaglen Coleg Graddedigion y Brifysgol.

Sicrhau Profiad o Ansawdd

Cynhaliwyd dau gyfarfod, un ym mis Hydref ac un ym mis Chwefror. Bu cyfarfod mis Hydref yn ystyried cyfraddau cyflwyno doethuriaethau a data o'r Arolwg o Brofiad Ymchwil Ôl-raddedig (PRES) a chytunwyd ar gamau gweithredu ar gyfer olrhain y ddau. Bu'r cyfarfod ym mis Chwefror yn ystyried y Map Blaenoriaethau Ymchwil Ôl-raddedig, dadansoddiad ychwanegol o'r Arolwg o Brofiad Ymchwil Ôl-raddedig, Siarter y Myfyrwyr, pennod ddiwygiedig Cod Ansawdd y DU yn ymwneud â graddau ymchwil, a'r Ymarfer Monitro Ymchwil Ôl-raddedig Blynyddol. Sylwer: cafodd canlyniadau'r ymarfer Monitro Blynyddol eu hystyried gan grŵp adolygu ar wahân, sy'n gweithredu o dan y Pwyllgor Safon ac Ansawdd Academaidd.

Fy Ngholeg Graddedigion y Brifysgol

"Ar ôl gweithio yn y Brifysgol fel Cynorthwy-ydd Graddedig am dair blynedd, roeddwn yn ddigon ffodus i gael cynnig swydd Swyddog Cyfathrebu gyda Choleg Graddedigion y Brifysgol ar ddiwedd 2011. Roeddwn eisoes yn gwybod am amcanion a gwaith Coleg Graddedigion y Brifysgol, ac roeddwn yn llawn cyffro i ddechrau lledaenu'r gair am y rhan gymharol newydd hon o'r Brifysgol. Ers dechrau yn y rôl hon, rwyf wedi llwyddo i gael blas go iawn ar ehangder y gwaith y mae Coleg Graddedigion y Brifysgol yn ei wneud, ac rwy'n teimlo'n falch o fod yn rhan o sefydliad sy'n cynnig ystod heb ei hail o gymorth i ôl-raddedigion.

Rwyf wrth fy modd yn gweld myfyrwyr yn ymgysylltu â Choleg Graddedigion y Brifysgol, ac un o'm hamcanion yn y rôl hon yw cael mwy o fyfyrwyr i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i ryngweithio â Choleg Graddedigion y Brifysgol, ac i ryngweithio â'i gilydd. Mewn Cynadleddau Myfyrwyr yn ddiweddar, trefnais i osod porthiant Twitter byw ar sgrin y Bar Caffi fel bod cynrychiolwyr yn gallu gweld yr hyn roedd eraill yn ei drydar am y digwyddiad. Hyd yn oed os oeddent ond sôn am ba mor dda oedd y byrbrydau (mae'n ymddangos bod cysylltiad annatod rhwng cofnodion cyfryngau cymdeithasol a bwyd!), mae'n wych gweld myfyrwyr yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gymryd rhan. Gallwn siarad drwy'r dydd am fanteision Twitter i ymchwilwyr, ac mae rhai enghreifftiau o hyn ar dudalen 7, yn ogystal â chanllaw cyflym ar ddechrau defnyddio Twitter. Ychydig funudau'n unig mae'n ei gymryd i agor cyfrif, ac ar ôl i nifer o ymchwilwyr, a fu gynt yn llawn amheuon, sôn wrthyf am fanteision 'amhrisiadwy' Twitter i'w gwaith, rwy'n argymell yn gryf eich bod yn rhoi cynnig arni.

I mi, mae Coleg Graddedigion y Brifysgol yn ymwneud â gwella profiad myfyrwyr ôl-raddedig, ac rwy'n llawn cyffro o ran defnyddio potensial offer gwych megis Twitter i fynd â hyn gam ymhellach.

Dilynwch Goleg Graddedigion y Brifysgol ar **@CardiffUGC**, a phob hwyl gyda'ch trydar!

- Jadine Wringe,
Swyddog Cyfathrebu Coleg

Dalier sylw: mae'n rhaid archebu lle o flaen llaw ar gyfer pob digwyddiad. Am restr lawn o weithdai a digwyddiadau, ewch i: **www.caerdydd.ac.uk/ugcp**

Dyddiadau i'w Nodi

MIS HYDREF

19 - Rhaglen newydd Coleg Graddedigion y Brifysgol ar gael drwy'r Ysgolion

MIS MEDI

4 - Sesiwn Ragarweiniol iSolve

9 - Dechrau Arni

11 - Dechrau Arni

16 - Hyfforddiant Famelab

22 - Dechrau Arni

31 - Yr Ymchwilydd Effeithiol (Mae'r Diwedd o Fewn Golwg)

MIS TACHWEDD

1 - Cyfarfod y Tîm Rhaglenni Hyfforddiant a Datblygiad

8 - Cyfarfod y Tîm Rhaglenni Meithrin Gallu

12 - Cyfarfod y Tîm Rhaglenni Cyfleusterau Graddedigion

21 - Cynnal Brwdfrydedd

26 - Cyfarfod Bwrdd Coleg Graddedigion y Brifysgol

Cyflwyniad! Hoffwn estyn croeso cynnes i Morganne Pritchard, sydd wedi ymuno â thîm Coleg Graddedigion y Brifysgol yn ddiweddar fel Swyddog Clercyddol, ar secondiad o'i rôl yn y Gofrestrfa.

Hunaniaeth Weledol Newydd

Ers ei lansio ym mis Ionawr 2011, mae Coleg Graddedigion y Brifysgol wedi bod yn awyddus i gynyddu ei weledded ledled y Brifysgol. Rydym wedi bod yn gweithio'n galed ar ddatblygu hunaniaeth weledol sy'n ategu hunaniaeth weledol y Brifysgol, ac sy'n ein helpu ni i roi ein stamp ar holl weithgarwch Coleg Graddedigion y Brifysgol. Felly gyda hyn mewn golwg rydym yn falch o lansio logos newydd Coleg y Brifysgol (sydd i'w gweld ar y chwith). Rydym yn gobeithio eich bod chi'n eu hoffi cymaint â ninnau, ac y byddant yn eich helpu i nodi'n hawdd weithgareddau a digwyddiadau Coleg Graddedigion y Brifysgol.

Drosodd atoch Chi

Mae tri o'n myfyrwyr doethuriaeth presennol yn sôn am eu dyddiau cynnar fel ymchwilwyr...

"Gall dechrau arni fel myfyriwr doethuriaeth fod yn brofiad brawychus, yn enwedig os ydych yn anghyfarwydd â Chaerdydd. Fy nghyngor cyntaf fyddai i chi ddod i adnabod pobl - staff a myfyrwyr - yn eich adran. Y nhw fydd eich rhwydwaith cymorth am y tair blynedd nesaf. Gwnewch ymdrech i ddod i adnabod staff gweinyddol eich Ysgol - gallant fod o gymorth mawr pan fyddwch o dan bwysau, pan fyddwch yn cael trafferth gyda therfynau amser neu geisiadau am gyllid. Yn y dyddiau cynnar, trafodwch gyda'ch goruchwyliwr yr hyn a ddisgwylir ohonoch yn ystod y chwe mis cyntaf. Gofynnwch am gopi o ffurflen adolygiad cynnydd eich Ysgol i roi syniad i chi o'r mathau o flychau y bydd angen i chi eu ticio. Yn y cyfnod cynnar hwn bydd gennych amser i fynychu llawer o sesiynau hyfforddiant a seminarau. Mynnwch gopi o Raglen Coleg Graddedigion y Brifysgol a chadwch lygad ar eu sesiynau hyfforddiant ar-lein. Ewch i bori mewn cynifer o'r llyfrgelloedd ag y gallwch. Yn anad dim, peidiwch ag anghofio bod y Brifysgol o'ch plaid chi, a'u bod yn awyddus i chi gyfrannu at eich Ysgol a chwblhau eich doethuriaeth."

- **John Caulfield,** Gymraeg

"Byddaf bob amser yn cofio'r alwad gan Gynyddu Gwaith Ymchwil Cymru ym mis Medi 2009, i roi gwybod i mi yn dilyn fy nghyfweliad fy mod wedi ennill ysgoloriaeth ar gyfer doethuriaeth tair blynedd. Roeddwn wrth fy modd ac wedi fy synnu - nid oeddwn erioed wedi disgwyl y byddai fy nghais am gyllid yn llwyddo. Wrth i mi weithio fy nghyfnod rhybudd fel nyrs staff, dechreuais fynychu cyrsiau a ddarparwyd gan Goleg Graddedigion y Brifysgol, a chefais olwg ar y byd newydd roeddwn ar fin bod yn rhan ohono. Aeth yr wythnosau cyntaf o gyrsiau, chwilio am lenyddiaeth (gyda chymorth llyfrgellydd) a chyfarfodydd goruchwylio heibio fel y gwynt, a mwynheais bob munud. Peth hyfryd oedd gallu treulio oriau'n darllen a beirniadu'r llenyddiaeth, a mapio a datblygu fy syniadau, wrth gyflawni'r naid o astudio israddedig i astudio ôl-raddedig. Mae'r daith wedi bod yn hynod bleserus, heriol a boddhaus - dyma dair blynedd gorau fy mywyd."

- **Jessica Bailie,** Astudiaethau Nyrsio a Bydwreigiaeth

"Er fy mod eisoes wedi cwblhau fy ngradd israddedig ym Mhrifysgol Caerdydd, roedd yr wythnos gyntaf o sefydlu ar gyfer dechrau ar ddoethuriaeth yn dasg frawychus. Fe'm cynghorwyd gan fy Ysgol (Gwyddorau'r Ddaear a'r Môr) i fynychu un o'r Digwyddiadau Sefydlu 'Dechrau Arni' a gynhaliwyd gan Goleg Graddedigion y Brifysgol o fewn y mis cyntaf o ddechrau fy ymchwil. Profodd hyn i fod yn ffordd ddefnyddiol iawn o rwydweithio; cefais gyfle i gyfarfod â phobl y tu hwnt i'm grŵp ymchwil ac o ysgolion academaidd gwahanol. Yn bwysicaf oll, cefais fy nghyflwyno i Goleg Graddedigion y Brifysgol drwy'r digwyddiad hwn. Darganfyddais fod nifer fawr o gyrsiau gwych yn cael eu cynnal drwy Raglen Coleg Graddedigion y Brifysgol, a thrwy gydol fy mlwyddyn gyntaf rwyf wedi manteisio ar rai o'r rhain. Maen nhw wedi fy helpu i fod yr ymchwilydd mwyaf cynhyrchiol, gweithgar ac effeithlon y gallaf fod, gan fy addysgu am y feddalwedd dechnegol a'r technegau cyfrifiadurol y bydd eu hangen arnaf er mwyn cwblhau fy noethuriaeth."

- **Milly Deany,** Gwyddorau'r Ddaear a'r Môr

Canllaw i Twitter

Mae'n bosibl eich bod yn meddwl am Twitter fel fforwm maldodus lle gallwch rannu'ch meddyliau dyfnaf ynghylch X Factor a'r hyn a gawsoch i frecwast. Felly pam ddylai ymchwilydd sydd eisoes yn brysur neilltuo amser i'w ddefnyddio? Yn hytrach na bod yn syrcas o bethau dibwys a ffôl, mewn gwirionedd gall Twitter fod yn arf defnyddiol iawn i ymchwilwyr: gan eu helpu i gysylltu â'i gilydd, cael y newyddion diweddaraf yn eu maes, holi cwestiynau a rhannu gwybodaeth. Gallwch agor cyfrif Twitter yn gyflym ac yn hawdd, a bydd yn eich helpu i greu presenoldeb ar y we ar gyfer eich gwaith ymchwil. Felly beth am roi cynnig arni heddiw? Dyma rai awgrymiadau ar sut i ddechrau.

Wrth agor cyfrif, dewiswch enw defnyddiwr y byddwch yn hapus i'w ddefnyddio'n gyhoeddus. Efallai y byddwch eisiau ystyried pa mor anhysbys yr hoffech fod, ac a fydd yr enw 'ffraeth' rydych wedi'i ddewis yn parhau i ymddangos yn ddoniol ymhen ychydig flynyddoedd. Mae'r un peth yn wir am eich llun proffil. Argymhellir yn gryf eich bod yn defnyddio llun ohonoch chi'ch hun, ond efallai yr hoffech ystyried ai'r llun ohonoch mewn tafarn mewn gwisg ffansi yw'r ddelwedd fwyaf priodol ar gyfer arddangos eich hun. Defnyddiwch yr adran 'gwybodaeth bersonol' gryno i ddweud ychydig amdanoch chi'ch hun a'ch diddordebau ymchwil. Hefyd dyma gyfle gwych i chi roi dolen i'ch gwefan neu'ch blog eich hun os oes gennych un.

Felly pwy ddylech chi eu dilyn ar Twitter? Wrth gwrs gallwch ddilyn eich ffrindiau a'ch hoff enwogion os ydych eisiau darllen y diweddaraf amdanynt, ond o safbwynt ymchwil, mae defnyddwyr llawer mwy defnyddiol y gallech fod yn eu dilyn. Mae Twitter yn eich galluogi i gysylltu â miliynau o ddefnyddwyr ledled y byd, gan roi cyfle digyffelyb i chi ddod o hyd i bobl sydd â'r un diddordebau ymchwil â chithau, neu y gallai eu gwaith ymchwil eich helpu â'ch gwaith chithau.

Hefyd gallwch ddilyn sefydliadau a sianeli newyddion perthnasol, i gael gwybod y newyddion a'r datblygiadau diweddaraf yn eich maes diddordeb. Mae hashtags yn nodwedd ddefnyddiol i'ch helpu i ddod o hyd i bobl sydd â'r un diddordebau. Er enghraifft, teipiwch #phd, a gallwch ddod o hyd i gofnodion diddiwedd o eitemau newyddion a myfyrdodau'n ymwneud â doethuriaethau. Os ydych eisiau ymuno mewn sgwrs fyd-eang am ddoethuriaethau, dilynwch sylwadau #phdchat bob nos Fercher.

Wedi i chi ddod o hyd i'r defnyddwyr priodol i'w dilyn, gwnewch yn siŵr eich bod yn cymryd rhan! Mewngofnodwch yn rheolaidd i weld yr hyn y mae pobl yn ei drafod, ac ymunwch yn y sgwrs. Gallwch ail-drydar sylwadau sy'n ddiddorol yn eich barn chi, ac anfon atebion i leisio eich barn eich hun. Defnyddiwch eich cysylltiadau newydd i ofyn cwestiynau a mesur barn. Yn sydyn cewch weld bod nifer diddiwedd o bobl y gallwch ymgynghori â nhw ar gyfer eich gwaith ymchwil.

Heb os, mae ymuno â Twitter a dod o hyd i bobl sy'n rhannu'ch diddordebau ymchwil yn gallu'ch helpu chi i deimlo'n llai ynysig wrth i chi weithio ar eich doethuriaeth, a bydd yn eich atgoffa bod yr hyn rydych yn ei wneud yn fuddiol, yn ysbrydoli pobl eraill, ac yn gallu cychwyn sgwrs fyd-eang.

Dilynwch Goleg Graddedigion y Brifysgol **@CardiffUGC**

Cornel Gyrfaoedd

Ar ddechrau eich doethuriaeth, bydd y syniad o ymgeisio am swyddi yn ymddangos yn bell i ffwrdd. Mewn gwirionedd, i lawer o bobl, mae gweithio ar ddoethuriaeth yn rhoi cyfle iddynt drwytho'u hunain ym mhleserau deallusol y byd academaidd, ac mae cyflogaeth yn rhywbeth i'w ystyried yn nes ymlaen. Er hynny, mae'n bwysig cydnabod mai un cam ar y llwybr galwedigaethol yw doethuriaeth, ac y bydd yn sicr yn arwain at bethau eraill. Felly mae'n werth meddwl rhywfaint ar gychwyn cyntaf y profiad o weithio ar ddoethuriaeth ynghylch y mathau o sgiliau a fydd yn cael eu datblygu dros y tair i bedair blynedd i ddod, a sut i gadw golwg ar y rhain. O bosibl, y rhan fwyaf cyffrous o bob prosiect ymchwil yw caffael sgiliau a gwybodaeth arbenigol yn ymwneud â'r maes pwnc. Dyma'r sgiliau a'r wybodaeth a fydd yn helpu i adnabod unigolyn fel, dyweder, arbenigwr ar addysg, peiriannydd neu gerddolegydd. O'r diwedd, gallwch alw'ch hun yn ymchwilydd a theimlo balchder eich bod yn gweithio ar rywbeth unigryw. Ond bydd pob doethuriaeth hefyd yn golygu datblygu sgiliau ymchwilio uwch megis meddwl yn feirniadol, ysgrifennu academaidd, sgiliau dadansoddol a rheoli data. Yr un mor bwysig, bydd gweithio ar ddoethuriaeth yn datblygu ystod o sgiliau proffesiynol, megis rheoli prosiect, sgiliau cyfathrebu, hunanreoli a rhwydweithio. Yn aml, nid yw myfyrwyr yn ystyried hyd nes eu bod wedi gwneud llawer o'u gwaith ar gyfer eu doethuriaeth (os ydynt yn ystyried hynny o gwbl!) eu bod yn datblygu set o sgiliau mor eang. Felly rhwydd hynt trwy ddechrau da; dylech gydnabod *y bydd* eich profiad o weithio ar ddoethuriaeth yn ychwanegu gwerth pan ddaw'n amser i ymgeisio am swyddi, a myfyriwch ynghylch datblygiad eich sgiliau wrth i chi fynd ymlaen. Gallwch ddysgu mwy ynghylch sut i wneud hyn yn ein gweithdy newydd ym mis Ionawr: 'Y Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr: Defnyddio'r Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr i Gynllunio ac Amlygu eich Sgiliau'.

- **Charlotte Whitehead**, Swyddog Coleg Graddedigion y Brifysgol

Prosiectau ymchwil ôl-raddedig



Mentrau Cyllido ar gyfer Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig

Ddwywaith y flwyddyn, mae Coleg Graddedigion y Brifysgol yn gwahodd myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig i gyflwyno ceisiadau am gyllid ar gyfer mentrau ymchwil ôl-raddedig.

Mae'r cyllid hwn yn gyfle gwych i ymchwilwyr o wahanol ddisgyblaethau ddod at ei gilydd i drafod diddordebau ymchwil cyffredin, ac mae'n helpu myfyrwyr i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy trwy roi cyfle iddynt weithio ar y cyd i drefnu digwyddiadau.

Rydym yn falch o gyhoeddi bod yr ymgeiswyr llwyddiannus o'r rownd gyllido ddiweddaraf fel a ganlyn:

Ymgeisydd 1	Ysgol	Ymgeisydd 2	Ysgol	Teitl y Prosiect
Helen McKenzie	ENCAP	Simon Jenkins	SHARE	Cynhadledd undydd â'r teitl 'Tramgwydd, Troseddu a Thabŵs yn y 19eg Ganrif Hir'
Manon George	CLAWS	Francesca Dickson	EUROP	Cynhadledd Cyfraith, Polisi a Gwleidyddiaeth yng Nghymru
Anna Jensen	BIOSI	Grainne McNamara	MEDIC	Cynhadledd Ryngddisgyblaethol ar Ffrwythlondeb, Beichiogrwydd a Datblygiad
Will Webberley	COMSC	Wil Chivers	SOCSI	Digwyddiad Cydweithredu a Hacathon Cyfrifiadureg a'r Gwyddorau Cymdeithasol
James Vafidis	BIOSI	Panagiotis Tziogkidis	CARBS	Grŵp Defnyddwyr Rhyngddisgyblaethol Prifysgol Caerdydd ar gyfer Meddalwedd Ystadegol 'R'
Victoria Silverwood	SOCSI	Sophie Chambers	CLAWS	Damcaniaethau a Dulliau mewn Ymchwil Troseddegol – Diwrnod Ôl-raddedig Rhyngddisgyblaethol

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau am gyllid 2013 yw 5pm ar:
ddydd Gwener 18 Ionawr a dydd Gwener 21 Mehefin
Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Dr Afia Ahmed yng Ngholeg Graddedigion y Brifysgol:
UGC@caerdydd.ac.uk, 029 2087 9408

Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r rhifyn hwn o Gylchlythyr Coleg Graddedigion y Brifysgol,
Os oes gennych unrhyw adborth neu ymholiadau, cysylltwch â **Jadine Wringe***:*
WringeJ@caerdydd.ac.uk *neu* **www.twitter.com/cardiffugc**